# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Lleoliad Allanol**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mawrth 2017

Amser: 10.09 - 12.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3884

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Dyfed Alsop, Llywodraeth Cymru<br>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

## 3 Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'i swyddogion Mike Usher a Richard Harries ynghylch adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – 'Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru'.

## 4 Gweithredu Darpariaethau Ariannol yn Neddf Cymru 2014: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a'i swyddogion Andrew Jeffreys a Dyfed Alsop ynghylch adroddiad Llywodraeth Cymru ar Weithredu Darpariaethau Cyllidol yn Neddf Cymru 2014 (Rhan 2).

4.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd ynghylch y fframwaith Cyllid a gytunwyd â Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Gweithredu darpariaethau cyllidol: Trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Goblygiadau ariannol Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd.

## 8 Sesiwn Ymgysylltu ag Ysgol Bassaleg

8.1 Aeth y Pwyllgor i Ysgol Bassaleg ar gyfer sesiwn ymgysylltu ynghylch pwerau cyllidol datganoledig.